

THOMAS, ROBERT ('Ap Vychan 1809-1880), gweinidog ac athro diwinyddiaeth gyda'r Annibynwyr, bardd a llenor.

Enw: Robert Thomas

Ffugenw: ap Vychan

Dyddiad geni: 1809

Dyddiad marw: 1880

Rhiant: Dafydd Thomas

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog ac athro diwinyddiaeth gyda'r Annibynwyr, bardd a llenor

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

Awduron: Richard Griffith Owen, Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn y Tŷ Coch, Pennantlliw Bach, Llanuwchllyn, 11 Awst 1809, y trydydd o ddeg o blant; ei dad, DAFYDD THOMAS ('Dewi ap Didymus'; 1782 - 1863), o blwyf Llangower, a'i fam yn ferch y Tŷ Coch. Yr oedd Dafydd Thomas yn r o athrylith ac wedi diwyllio'i hun ymhell y tu hwnt i'r cyffredin; ceir emynau o'i waith yn *Caniedydd* yr Annibynwyr; ymddangosodd peth o'i waith yn *Cymru (O.M.E.)*, iv, a chyhoeddodd 'Ap Vychan' gofiant iddo, 1863. Gan na chaniatâi ei amgylchiadau iddo ddanfôn ei blant i'r ysgol, hyfforddodd hwynt ei hunan ac ef a ddysgodd i 'Ap Vychan' ddarllen, ysgrifennu, etc., yn ogystal â'i ddisgyblu yn rheolau barddoniaeth. Symudodd y teulu i dŷ mwy a godasai ei dad, o'r enw Tan-y-castell, ac yn ei hunan-gofiant edrydd y mab am yr amseroedd enbyd a welodd ym more'i oes. Cyn bod yn 10 oed cafodd le fel hogyn cadw defaid gydag Evan Davies a'i briod yn y Tŷ Mawr yn ymyl ei gartref, aelwyd nodedig am ei chrefydd a'i moes, a chafodd yno argraffiadau nas dilewyd ar hyd ei oes. [Michael Jones](#) oedd gweinidog yr 'Hen Gapel,' ac yr oedd bri ar yr ysgol Sul yn yr ardal, ac ni bu'r llanc yn ôl o fanteisio ar bob cyfle i ennill gwybodaeth o bob math. Yn 14 oed medrai lunio englyn a daeth yn aelod o Gymdeithas Cymreigyddion Llanuwchllyn ar bwys y medr hwn. Ar 1 Mawrth 1826, rhoes [Michael Jones](#) gymorth iddo o gymynrodd y [Dr. Daniel Williams](#) i fechgyn tlawd ddysgu crefft ac aeth at Seimon Jones i efail y Lôn yn brentis gof. Ar derfyn ei gwrs yno bu chwe mis yn Nhŷ 'n Cefn, ger Corwen, ac ym Medi 1829 troes ei wyneb tua'r De a bu'n gweithio yn Nhredgar a Dowlais, ond dychwelodd y flwyddyn ddilynol at ei hen feistr i'r Lôn am ychydig. Ym Mai 1830 symudodd i Groesoswallt i weithio gydag [Edward Price](#), a chafodd gyfle yno i ymgynabod â'r iaith Saesneg, ac yn y man ymaelododd yn yr eglwys Saesneg a oedd dan weinidogaeth y [Dr. T. W. Jenkyn](#). Ymrodd i astudio gweithiau y [Dr. Edward Williams](#), Fuller, Jonathan Edwards, ac eraill. Mynnai rhai iddo ddechrau pregethu gyda'r Saeson, ond symudodd i Gonwy ddechrau 1835 a'r haf dilynol pregethodd am y waith gyntaf a hynny yng nghapel Henryd gerllaw. Daeth yn fuan yn adnabyddus a chafodd alwad i Ddinas Mawddwy, ac urddwyd ef yno 19 Mehefin 1840. Yn 1842 symudodd i ofalu am eglwys newydd Salem, Lerpwl, a bu yno hyd 1848 pryd y symudodd drachefn i Rosllannerchrugog. Daeth i Fangor yn 1855 yn olynydd i'r [Dr. Arthur Jones](#), a bu yno nes ei benodi yn 1873 yn athro diwinyddiaeth yng Ngholeg y Bala ac yn weinidog ar yr eglwys yno. Bu farw 23 Ebrill 1880, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanuwchllyn.

Enillodd y gadair genedlaethol ddwywaith, y naill yn y Rhyl yn 1864 a'r llall yng Nghaerlleon yn 1866. Fel 'Ap Vychan' yr

adnabuwyd ef ar ôl eisteddfod y Rhyl, gan mai dyna'r enw a ddefnyddiodd, a hynny ar bwys y ffaith ei fod yn hanu o gyff enwog y '[Vychaniaid 'o Gaergai](#), Llanuwchllyn. Golygodd *Cofiant Cadwaladr Jones, Dolgellau*, a bu'n cydolygu 'r *Dysgedydd* o 1865 i 1880. Ef oedd cadeirydd Undeb yr Annibynwyr yn 1876. Daeth yn gynnar i fri fel pregethwr, a chadwodd ei boblogrwydd i'r diwedd â chanddo ddawn arbennig ar faes cymanfa. Mynnai mai ' Calfin cymedrol ' oedd o ran ei ddaliadau.

Meddai bersonoliaeth gyda'r hawddgaraf, a phwysid ar ei farn a'i gyngor ar bob llaw. Ef, ond odid, yn unig a gadwodd ei enw da yn ddilychwin drwy holl 'helynt y cyfansoddiadau' yngl n â Choleg y Bala; a safodd wrth ochr ei gyfaill [M. D. Jones](#) i'r diwedd.

Brawd i ' Ap Vychan ' oedd ELLIS THOMAS (1823 - 1878), bardd. Pan symudodd ei deulu i Feifod, Sir Drefaldwyn, bu'n gweithio ar ffermydd yn y sir honno, ac wedyn, fel gof, yn Rhuddlan a Kinsford (Sir y Fflint), ac yn Ellesmere, Sir Amwythig. Ymfudodd i U.D.A. yn 1852 ac ymsefydlu yn Utica, gan weithio fel gof ar reilffyrdd. Bu farw 5 Hydref 1878. Flynyddoedd lawer wedi ei farw cyhoeddwyd (yn Utica, 1900) ddetholiad o'i farddoniaeth o dan y teitl *Caniadau yr Efail*.

Awduron

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 428; iii, 271-2, 328; iv, 27, 32, 458

M. D. Jones a D. V. Thomas, *Cofiant a Thraethodau Duwinyddol y Parch. R. Thomas (Ap Vychan), Bala*

Gwaith Ap Vychan ('Cyfres y Fil')

Y Traethodydd, 1903, 429

Cymru (O.M.E.), xxii, 293; xxiv, 133; xxv, 53

NLW MSS 3292, 4616, 5672, 6436-7

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Robert Thomas](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [4706572](#)

Wikidata: [Q16737330](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

